Bwrdd Gweithredol Tŷ'r Cwmnïau – crynodeb o'r cofnodion – 25 Mehefin 2009

Model Gweithredu Targedol
Roedd y papur a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn gosod y rhesymau pam bod angen i'r corff fod â Model Gweithredu Targedol.

Prosesu Cellog
Roedd Prosesu Cellog ar gerdded ers mis Mawrth bellach yn yr adran Gweithrediadau Canolog. Adolygodd yr aelodau y broses a chytunwyd y dylai celloedd pellach gael eu rhoi ar waith er mwyn cywain mwy o guddwybodaeth gyda golwg ar y dyfodol tymor hirach.

Cynnig i Roi Gwasanaeth Ar-lein 24/7 i Gwsmeriaid
Ar sail gwaith dadansoddi ers 17 / 7, penderfynwyd mabwysiadu ymagwedd mewn camau, o 1 Awst 2009 ymlaen, fel y byddai'n gwasanaethau ar-lein ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Canlyniadau Cyfarfod Adolygiad Strategol 15 Mehefin
Gwahoddwyd yr aelodau i adolygu'r wybodaeth a gyflwynwyd a thynnu sylw at unrhyw fylchau. Byddai diwrnod-i-ffwrdd y Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd Llywio yn adeiladu ar sail trafodaethau blaenorol ac fe gâi unrhyw ganlyniadau perthnasol eu ffactora i mewn i'r fframwaith bwrw-ymlaen strategol.

Sefyllfa Ddiweddaraf CAP
Roedd y rhaglen yn dal i fodloni'r amserlen ac roedd yr hyfforddiant yn cael ei roi ar waith yn effeithiol. Cynhelid adolygiad OGC yn ystod mis Gorffennaf.

Sefyllfa Ddiweddara'r Rhaglen E100
Roedd eProof ac eAccounts yn cael eu gweithredu yn unol â'r arfaeth. Cytunwyd y dylid llunio nodyn cyfathrebu ar gyfer gweinidogion ac aelodau'r Bwrdd Llywio, gan fod cyrraedd y ddwy garreg filltir hyn ar y cyd yn cyfrannu ymhellach at ein hymdrechion o ran lliniaru herwgipio cwmnïau.

Cofrestrfa Gogledd Iwerddon (NI)
Cadarnhawyd bod y drafodaeth ar y Gronfa Fasnachu wedi cael ei chymeradwyo gan y Senedd y diwrnod cynt. Gellid bellach gymryd y camau terfynol i sicrhau integreiddio llwyr Cofrestrfa Gogledd Iwerddon i Dŷ'r Cwmnïau erbyn mis Hydref 2009.

Sefyllfa Ddiweddaraf Bwrdd Busnes yr Asiantaeth (ABB) a Cherdyn Sgorio mis Mai
Cyflwynodd yr ABB ei sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer y mis i'r Bwrdd. Nododd yr aelodau fod un enghraifft o lithro'n ôl yn yr amserlen yn ystod y mis, ond bod y sefyllfa wedi'i datrys ers hynny. Roedd y lefelau cydymffurfio yn aros yn uchel (97.68% o ran cyfrifon, 95.92% o ran ffurflenni blynyddol) ac roedd pob proses fewnol yn gweithio'n dda.

Cyflawniad Ariannol
Cafodd Pecyn Cyfleu Manylion Ariannol mis Mai ei gylchredeg er gwybodaeth ymhlith yr aelodau.

Adolygu Risgiau Gweithredol Tyngedfennol
Adolygodd y Bwrdd y gofrestr risgiau gyfredol, gan gymeradwyo'r diwygio i'r portreadau risg presennol.

Rheoli Budd-ddeiliaid
Eglurwyd yng nghyfarfod y Rheolwyr Cyfrifon ar 8 Mehefin fod tri budd-ddeiliad blaenllaw wedi'u pennu: yn BIS, y Grŵp Cyfraith Gwmnïau a'r Adrannau Marchnadoedd Teg, HMRC a'r Proffesiwn Cyfrifeg. Gyda llygad ar y dyfodol, gofynnwyd i'r aelodau drafod sut yr oedden nhw am i'r gydberthynas esblygu.

Ysgrifenyddiaeth Tŷ'r Cwmnïau
Mehefin 2009